Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Addysg heblaw yn yr ysgol

Mehefin 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau)
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Pa ddarpariaeth y mae disgyblion yn ei chael?** | **9** |
| Map o’r ddarpariaeth | 9 |
| Natur y ddarpariaeth | 10 |
| Cymorth ac arweiniad | 13 |
| Y Cwricwlwm | 13 |
| Y ddarpariaeth Gymraeg | 15 |
| Oriau’r ddarpariaeth | 16 |
| Cymwysterau, medrau a phrofiad darparwyr | 17 |
| **Pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni mewn addysg heblaw yn yr ysgol?** | **18** |
| Deilliannau disgyblion | 18 |
| Profiadau disgyblion | 19 |
| **Pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cynllunio, rheoli, monitro ac arfarnu addysg heblaw yn yr ysgol?** | **19** |
| **Astudiaethau achos** | **24** |
| **Atodiad 1: Y sylfaen dystiolaeth** | **30** |
| **Atodiad 2: Gwybodaeth gefndir** | **32** |
| **Geirfa/cyfeiriadau** | **33** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **34** |

## Cyflwyniad

Adroddiad yw hwn ar addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n derbyn eu holl addysg, neu'r brif ran ohono, ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol. Lluniwyd yr adroddiad mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2015-2016. Mae'r adroddiad yn dilyn arolwg Estyn ar arfer dda mewn addysg heblaw yn yr ysgol, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2015.

Bwriedir yr adroddiad yn bennaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, penaethiaid, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth a nodwyd yn atodiad un.

## Cefndir

### Sut mae deddfwriaeth yn diffinio addysg heblaw yn yr ysgol?

Mae Adran 19(1) Deddf Addysg 1996 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau addysg lleol wneud 'trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol neu heblaw yn yr ysgol i'r plant hynny o oed ysgol gorfodol sydd, am resymau salwch, gwahardd o'r ysgol neu reswm arall, yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud iddynt,' (Prydain Fawr, 1996).

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, sy'n manylu ymhellach ar y gofynion deddfwriaethol hyn. Yn ogystal, mae'n amlinellu amrywiaeth o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), addysg unigol, Porth Ieuenctid, darparwyr hyfforddiant, addysg gysylltiedig â gwaith a mudiadau gwirfoddol a chymunedol.

Mae gan awdurdod lleol y pŵer i drefnu darpariaeth addysg addas heblaw yn yr ysgol i bobl ifanc dros oed ysgol gorfodol ond o dan 18 oed. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc dros oed ysgol gorfodol.

Gall disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol gael ei gofrestru'n ddeuol rhwng ysgol ac UCD neu'r awdurdod lleol, neu gael ei gofrestru'n unigol gydag UCD neu'r awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am gydlynu ac ariannu'r ddarpariaeth. Bydd disgybl sy'n derbyn darpariaeth amgen wedi'i threfnu a'i hariannu gan ysgol, er enghraifft cwrs galwedigaethol mewn coleg addysg bellach, wedi'i gofrestru fel petai'n cael addysg oddi ar y safle ac ni fydd wedi'i gofrestru'n ddeuol.

Ar y cyfan, mae disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gweithio tuag at ennill cymwysterau lefel 1 a 2 sy'n seiliedig ar gredydau sydd gyfwerth â TGAU. Mae'r rhain yn galluogi disgyblion i ennill cymhwyster sydd gyfwerth â hyd at 4 TGAU. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r fframwaith cymwysterau yn gostwng hyn i fod cyfwerth â 2 TGAU.

Yn 2007, adroddodd Estyn fod 'rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal unedau heb eu cofrestru, sy'n addysgu disgyblion o oed ysgol gorfodol' (t. 5). Mae awdurdodau lleol yn parhau i addysgu disgyblion mewn darpariaeth heb ei chofrestru. Mae mwyafrif y rhain yn ganolfannau yn y gymuned, y mae disgyblion yn eu mynychu ar gyfer 'addysg yn y cartref'.

Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr heb eu cofrestru, sy'n gweithredu'n ysgolion annibynnol. O dan Ddeddf Addysg 2002, ystyrir bod unrhyw ddarparwr addysg amser llawn ar gyfer pum disgybl neu fwy o oed ysgol gorfodol (neu un disgybl â datganiad AAA) yn ysgol annibynnol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob ysgol annibynnol gofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2011).


**Faint o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol?**

Mae nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywio'n helaeth ar draws awdurdodau lleol Cymru. Mae'n amrywio o wythnos i wythnos hefyd, wrth i nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol newid ac i nifer y disgyblion sy'n cael eu cyfeirio at addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer eu prif addysg, tra'u bod wedi cofrestru yn yr ysgol o hyd, yn newid. Yn 2013-2014, roedd 89 o ddisgyblion wedi'u gwahardd yn barhaol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015b).

Mae'r data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (2015) yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol wedi codi flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod wythnos cyfrifiad ysgolion 12-16 Ionawr 2015, adroddwyd bod cyfanswm o 2,157 o ddisgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol, wedi'i ariannu gan eu hawdurdod lleol. Dyma gynnydd o'r cyfanswm o 1,220 yn 2012-2013, (Llywodraeth Cymru, 2015a).

O'r disgyblion hyn, roedd anghenion addysgol arbennig gan 86.2% ac roedd datganiad gan 33.4%. Roedd ychydig o dan 35% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd mwyafrif y disgyblion hyn o gefndir ethnig Gwyn Prydeinig.

O adroddiadau'r disgyblion yn ystod wythnos cyfrifiad ysgolion:




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015a)

Mae cyfradd y disgyblion rhwng 11 a 15 oed sy'n cael eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn cynyddu yn unol ag oed y disgyblion. Yn 2014-2015, roedd 1.5 o bob 1,000 o ddisgyblion 11 oed yn cael addysg heblaw yn yr ysgol. Fe wnaeth y gyfradd hon gynyddu i 18.2 o bob 1,000 o ddisgyblion 15 oed. Mae saith o bob deg disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn fechgyn (Llywodraeth Cymru, 2015a).

## Prif ganfyddiadau

1 Ar y cyfan, nid yw disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio'n gyfartal ar eu hawl i addysg o gymharu â'u cymheiriaid. Mae'n rhaid i leiafrif o ddisgyblion aros dros 15 diwrnod i gael at ddarpariaeth, maent yn cael cwricwlwm cyfyngedig neu maent yn dilyn cyrsiau nad ydynt yn ddigon heriol.

2 Fel arfer, nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu cael at gwricwlwm teg a chytbwys sy'n eu galluogi i ennill cymwysterau sy'n bodloni eu hanghenion a'u potensial. Dim ond ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae diffyg adnoddau a chyfleusterau ar gyfer pynciau fel gwyddoniaeth yn cyfyngu'r cwricwlwm i ormod o lawer o'r disgyblion hyn. Mae'r diffyg hwn yn golygu bod disgyblion yn colli allan ar agweddau pwysig ar addysg, sy'n gallu effeithio ar eu cyfleoedd am waith a hyfforddiant yn y dyfodol.

3 Nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael yr addysg amser llawn (25 awr yr wythnos, fel arfer) y mae hawl ganddynt ei chael. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae awdurdodau lleol yn darparu addysg yn y cartref iddynt yn cael addysg am uchafswm o 10 awr yr wythnos. Byddant wedyn yn dilyn cwricwlwm cyfyngedig gan nad oes digon o amser i addysgu holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae llawer o'r disgyblion hyn wedi cael cyfnodau estynedig o ymyrraeth yn yr ysgol a chefnogaeth drwy Raglen Cymorth Bugeiliol i'w helpu i reoli eu hymddygiad.

4 Mae disgyblion sydd wedi bod yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn flaenorol yn cael cyfleoedd cyfyngedig iawn i barhau â'u dysgu yn Gymraeg pan fyddant yn dechrau addysg heblaw yn yr ysgol. Pan fydd darparwyr yn recriwtio staff i weithio gyda'r disgyblion hyn, nid ydynt bob amser yn recriwtio athrawon cymwys.

5 Yn aml, nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth arbenigol y mae arnynt ei angen, hyd yn oed pan fydd hyn wedi'i amlinellu mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid ydynt yn cael y cymorth amlasiantaeth arbenigol y mae ei angen arnynt yn gyson.

6 Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn parhau i'w chael am weddill eu cyfnod yn yr ysgol. Anaml iawn y byddant yn ailintegreiddio i'r ysgol.

7 I lawer o ddisgyblion, mae addysg heblaw yn yr ysgol yn rhoi ail gyfle iddynt lwyddo. Mae presenoldeb llawer o ddisgyblion yn gwella ac mae ganddynt fwy o symbyliad i ddysgu gan eu bod yn cael profiadau dysgu diddorol.

8 Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn astudio cyrsiau galwedigaethol. Mae'r profiadau hyn yn aml yn symbylu disgyblion i wneud yn dda. Dysgant y medrau y mae eu hangen i fanteisio ar hyfforddiant neu waith pellach. Maent yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'r maes gwaith y dymunant ei ddilyn.

9 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu perthynas dda â staff. Gwerthfawrogant fod staff yn deall yr anawsterau y maent yn eu cael. Gydag amser, mae'r berthynas hon yn helpu i gynorthwyo disgyblion i wella'u hymddygiad.

10 Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n parhau i fod yn ffrindiau gyda disgyblion o'u hysgolion prif ffrwd. Datblygant ffrindiau newydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol ond, yn aml, nid yw'r disgyblion hyn yn byw gerllaw ac mae'n anodd cwrdd â nhw y tu allan i amser ysgol.

11 Mae bron bob un o'r awdurdodau lleol yn cael anawsterau wrth sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio ar arbenigedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Nid yw staff yn cael y cyngor a'r arweiniad arbenigol y mae eu hangen arnynt i gefnogi anghenion disgyblion.

12 Ar y cyfan, nid yw prosesau cyfeirio awdurdodau lleol er mwyn i ddysgwyr gael at addysg heblaw yn yr ysgol yn glir nac wedi'u deall yn dda. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw'r prosesau hyn yn sicrhau bod gwybodaeth asesu a gwybodaeth arall yn cael ei throsglwyddo'n brydlon o'r ysgol i'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol.

13 Ar draws Cymru, mae diffyg dealltwriaeth o'r gofynion cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae nifer bach iawn o benaethiaid, sydd â disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol ym Mlwyddyn 11, yn tynnu eu henw o gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr. Mae hyn yn golygu bod cyrhaeddiad y disgyblion hyn, nad yw'n cyd-fynd â chyflawniad eu cyfoedion yn aml, yn cyfrif yn nata perfformiad yr ysgol. Mae eu hawdurdodau lleol yn cymeradwyo'r arfer hon.

14 Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwylio addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ddigon trylwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddant yn gwybod faint o ddisgyblion sy'n derbyn yr addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu'n ei chomisiynu gan ddarparwyr annibynnol. Nifer bach iawn sy'n gwybod faint o ddisgyblion eraill sydd hefyd yn manteisio ar ddarpariaeth amgen amser llawn oddi ar y safle, yn aml yn yr un darparwyr, ond wedi'i chomisiynu'n uniongyrchol gan ysgolion.

15 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn casglu data ar y cymwysterau y mae disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hennill. Dim ond lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Ar y cyfan, nid yw awdurdodau lleol yn olrhain cynnydd parhaus disgyblion yn ddigon da i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial. Maent yn monitro presenoldeb ac ymddygiad, ond nid ydynt yn cadw cofnod o anghenion dysgu disgyblion na'u cynnydd yn erbyn targedau dysgu. Mewn ychydig achosion, nid yw gweithdrefnau i olrhain prydlondeb a phresenoldeb dyddiol disgyblion ac i sicrhau diogelwch disgyblion yn cael eu dilyn.

16 Ychydig bach iawn o athrawon addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig y rhai a gyflogir gan ddarparwyr annibynnol, sy'n gallu manteisio ar hyfforddiant a chymorth a fyddai'n sicrhau eu bod yn gwybod am yr arfer ddiweddaraf a gofynion diweddaraf y

cwricwlwm. Fel arfer, ni wyddant ble i droi er mwyn cael y cyngor gorau neu weld arfer dda. Nid yw awdurdodau lleol yn annog eu hathrawon arbenigol a'u seicolegwyr addysg i rannu eu harbenigedd â darparwyr annibynnol addysg heblaw yn yr ysgol.

17 Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr annibynnol darpariaeth amser llawn i 5 disgybl neu fwy, ac un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig, gofrestru'n ysgolion annibynnol. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn comisiynu addysg amser llawn heblaw yn yr ysgol ar gyfer grwpiau mawr o ddisgyblion, gan ddarparwyr sydd heb gofrestru'n ysgolion annibynnol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn cynnal UCDau heb eu cofrestru. Maent yn gweithredu canolfannau addysg a chanolfannau eraill heb eu cofrestru i ddarparu addysg am hyd at 25 awr yr wythnos.

18 Nid yw aelodau etholedig yn gwybod am bob agwedd ar addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn gyfrifol amdanynt. Maent yn sicr ynghylch pa mor dda yw cynnydd disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol na faint mae'r awdurdod lleol yn ei wario ar addysg heblaw yn yr ysgol. Nid ydynt yn gwybod a yw disgyblion a gafodd addysg heblaw yn yr ysgol yn mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn golygu na allant farnu p'un a yw'r addysg a ddarparant heblaw yn yr ysgol yn effeithiol neu'n rhoi gwerth am arian.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 gryfhau'r arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion ynghylch y gofyniad i:

- hysbysu Llywodraeth Cymru am yr holl addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu ei chomisiynu, gan gynnwys canolfannau addysgu, UCDau a darpariaeth annibynnol
- cynnal cofnodion o'r holl ddisgyblion sy'n derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, a'r rhai sy'n derbyn darpariaeth amgen a drefnwyd gan ysgolion yn annibynnol ar eu hawdurdod lleol
- cynnal cofnodion o nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n mynd ymlaen i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- gwella'r gallu i droi at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac asiantaethau arbenigol eraill i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

A2 cyhoeddi data cyrhaeddiad a phresenoldeb ar gyfer dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol ar lefel yr awdurdod lleol

A3 ystyried diwygio'r trothwy i ddarparwyr gofrestru'n ysgolion annibynnol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 hysbysu Llywodraeth Cymru am yr holl ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol y maent yn ei darparu neu'n ei chomisiynu

A5 gwirio'n ofalus statws cofrestru pob darparwr y maent yn eu defnyddio i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y ddarpariaeth y maent yn ei chomisiynu wedi'i chofrestru'n ysgol annibynnol gyda Llywodraeth Cymru

A6 sicrhau bod ysgolion yn deall gweithdrefnau cyfeirio at addysg heblaw yn yr ysgol a chynnwys y gofyniad bod gwybodaeth asesu a gwybodaeth arall yn trosglwyddo'n brydlon o'r ysgol i'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol

A7 monitro ansawdd yr holl ddarpariaeth amgen sy'n cael ei darparu neu ei chomisiynu ar gyfer disgyblion yn eu hawdurdod lleol, gan gynnwys darpariaeth wedi'i threfnu gan ysgolion neu drwy Rwydweithiau 14-19

A8 rhoi addysg addas i ddisgyblion o fewn 15 niwrnod o benderfynu y dylai disgybl gael addysg heblaw yn yr ysgol

A9 darparu cwricwlwm amser llawn i bob disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sy'n bodloni eu hanghenion, yn eu galluogi i gyflawni eu potensial ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hailintegreiddio lle bynnag y bo'n bosibl

A10 darparu addysg heblaw yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg yn Gymraeg

A11 bodloni’r gofyniad statudol i sicrhau bod disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael y cymorth sydd wedi’i gofnodi ar eu datganiad neu eu Cynllun Datblygu Unigol

A12 rhoi’r holl wybodaeth angenrheidiol am addysg heblaw yn yr ysgol i aelodau etholedig fel y gallant farnu ei heffeithiolrwydd a’i gwerth am arian

**Dylai ysgolion:**

A13 weithio’n agos gyda’u hawdurdod lleol a rhoi gwybodaeth gynhwysfawr, amserol iddo am yr holl ddisgyblion y mae’r ysgol yn eu cyfeirio am addysg heblaw yn yr ysgol a darpariaeth amgen, gan gynnwys trwy Rwydweithiau 14-19

A14 gwirio’n ofalus statws cofrestru pob darparwr a ddefnyddiant a chadarnhau a ddylai’r darparwr fod wedi cofrestru os nad ydyw

A15 sicrhau bod darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol sy’n addysgu disgyblion o’u hysgol yn cael gwybodaeth o ansawdd da am anghenion dysgu ac ymddygiad disgyblion


A16 cadw mewn cysylltiad â disgyblion o’u hysgol sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol, monitro cynnydd y disgybl, gan gynnwys perfformiad academaidd, a’i ailintegreiddio lle bynnag y bo modd

A17 gweithio’n agos gyda darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i sicrhau parhad yn y cwricwlwm i ddisgyblion o’u hysgol

## Pa ddarpariaeth y mae disgyblion yn ei chael?

19 Mae’r map canlynol yn nodi nifer y disgyblion sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol, fel y nodir yn nata datganiadau CYBLD 2015.

**Ffigur 1: Nifer y disgyblion sy’n derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol nad ydynt ar gofrestr mewn ysgol a gynhelir, 2014-2015**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015a)

20 Nid yw’r data sydd wedi’i ddangos ar y map uchod o reidrwydd yn cynnig darlun cywir o nifer a chyfran y disgyblion sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol, gan fod ansicrwydd ynghylch y meini prawf ar gyfer nodi mai addysg heblaw yn yr ysgol yw darpariaeth.

21 I ddeall graddau’r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, cynhaliodd Estyn arolwg o awdurdodau lleol ar 8 Mai 2015. Mae’r siart yn ffigur 2 isod yn dangos nifer y disgyblion sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol, sydd wedi’i darparu neu ei chomisiynu gan bob awdurdod lleol.

## Natur y ddarpariaeth

22 Mae llawer o resymau pam mae disgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol. Yn bennaf, maent wedi’u gwahardd o’r ysgol, maent yn gwrthod mynd i’r ysgol neu mae ganddynt ymddygiad heriol iawn yn gysylltiedig ag anawsterau ymddygiadol cymdeithasol ac emosiynol. O ganlyniad, maent yn aml wedi colli cyfnodau estynedig o addysg ac mae ganddynt fylchau yn eu dysgu. Yn aml, mae diffyg hunan-barch a hyder gan y disgyblion hyn. Mae dyheadau llawer ohonynt ynghylch eu dyfodol yn isel.

23 Ledled Cymru, ychydig bach iawn o ddisgyblion sy’n dychwelyd i’r brif ffrwd o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae’n arbennig o annhebygol bod disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn dychwelyd i ysgol brif ffrwd. Nid oes data ar gael am ddisgyblion ar draws Cymru sy’n cael cwricwlwm amgen wedi’i drefnu trwy eu hysgol neu’r rhwydwaith darpariaeth 14-19. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth am nifer y disgyblion sydd allan o’r ysgol, neu faint o amser y maent allan o’r ysgol, yn anghyflawn.

24 Mae bron y cyfan o’r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol y gwnaethom ymweld â hi ar gyfer yr arolwg hwn ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 yn bennaf. Mae gan fwyafrif y darparwyr hyn nifer bach o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 hefyd. Roedd un darparwr y gwnaethom ymweld ag ef ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. Dros y tair blynedd diwethaf, ar draws yr holl ddarpariaeth yr ymwelwyd â hi, dim ond ychydig bach iawn o ddisgyblion a ddychwelodd i ysgolion prif ffrwd. Mewn ychydig ddarparwyr, nid oedd disgyblion yn gwybod bod posibilrwydd y gallent ddychwelyd i’r ysgol.

25 Mae llawer o ddisgyblion yn cynnal ymweliad cychwynnol â’r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gyda rhywun y maent yn ei adnabod, fel gweithiwr Gwasanaeth Ieuenctid neu Gynhwysiant awdurdod lleol neu swyddog Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Ar ôl cynnal yr ymweliad hwn, mae’r disgybl yn dechrau mynychu’r ddarpariaeth yn weddol fuan. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn mynychu’r ysgol nac unrhyw ddarpariaeth arall am gyfnodau hir cyn y byddant yn dechrau cael addysg heblaw yn yr ysgol. I nifer bach iawn o ddisgyblion, mae’r amser rhwng mynychu’r ysgol a chael addysg heblaw yn yr ysgol yn rheolaidd gymaint â thair blynedd. Mae hyn am nifer o resymau; er enghraifft, maent wedi gwrthod mynychu yn gyson, maent wedi dioddef problemau iechyd meddwl neu afiechydon eraill, neu maent wedi treulio amser yn y gwasanaeth cyfiawnder troseddol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae awdurdodau lleol yn gweithio’n galed i ymgysylltu â’r disgyblion hyn a’u cefnogi, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau. Fodd bynnag, i nifer bach iawn o ddisgyblion, nid yw’n ymddangos bod rheswm dilys dros yr oedi gan awdurdodau lleol wrth ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol.

26 Dim ond nifer bach iawn o ysgolion sy'n mynd ati'n rheolaidd i ddilyn i fyny cynnydd disgyblion sy'n parhau ar eu cofrestr pan fyddant yn cael addysg amser llawn heblaw yn yr ysgol. Fel arfer, mae'n ofynnol i ddarparwyr anfon adroddiadau wythnosol ar ddisgyblion, ond mae'r ffocws ar bresenoldeb ac ymddygiad yn hytrach nag ar berfformiad academaidd. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae gwasanaethau cynhwysiant yn cadw cofnodion da o bresenoldeb ac ymddygiad. Yn ogystal, mae darparwyr yn adrodd ar ddata perfformiad diwedd cyfnod allweddol disgyblion.

## Ffigur 2: Estyn – Nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fel eu hunig ddarpariaeth, yn ôl darpariaeth, Mai 2015

| | Uned cyfeirio disgyblion | Ysgol neu goleg arbennig annibynnol | Coleg addysg bellach | Darparwr dysgu yn y gwaith neu ddarparwr hyfforddiant | Gwersi unigol, grŵp, yn y cartref neu mewn ysbyty | Darpariaeth adnoddau a ariennir gan ALl sy'n annibynnol ar ysgol prif ffrwd | Gwasanaeth ieuenctid yn cynnwys y Porth Ieuenctid | Sefydliad gwirfoddol | Profiad gwaith estynedig | Addysg yn yr awyr agored | Darpariaeth therapiwtig heblaw yn yr ysbyty | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 13 | . | . | . | 9 | . | . | . | . | . | . | 3 |
| Gwynedd | 14 | 6 | . | . | 1 | . | . | . | . | . | . | 8 |
| Conwy | 53 | 10 | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . |
| Sir Ddinbych | 10 | 2 | 53 | . | 7 | . | 2 | . | 27 | . | . | . |
| Sir y Fflint | 65 | 14 | 28 | . | 6 | . | . | . | . | . | . | . |
| Wrecsam | 13 | 4 | . | . | 45 | . | . | . | . | . | . | . |
| Powys | 15 | 14 | 1 | 6 | 24 | . | . | . | 5 | . | . | 6 |
| Ceredigion | 11 | 3 | . | . | 1 | . | . | . | . | . | . | 4 |
| Sir Benfro | . | 20 | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . |
| Sir Gaerfyrddin | . | 4 | . | . | 3 | . | . | . | . | . | . | . |
| Abertawe | 5 | 18 | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . |
| Castell-Nedd Port Talbot | . | 5 | . | 2 | 23 | . | . | . | . | . | . | 3 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 12 | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . |
| Bro Morgannwg | 14 | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . |
| Rhondda Cynon Taf | 121 | . | . | . | 14 | . | . | . | . | . | . | . |
| Merthyr Tudful | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . | . |
| Caerffili | 8 | . | 5 | 47 | 85 | 18 | . | 30 | . | 52 | . | 16 |
| Blaenau Gwent | 4 | 5 | . | . | . | 8 | . | . | . | . | . | . |
| Torfaen | 4 | 17 | . | . | . | . | . | . | . | . | 1 | . |
| Sir Fynwy | 6 | . | . | . | 12 | . | . | . | . | . | . | . |
| Casnewydd | 15 | . | 8 | 3 | 3 | 8 | 3 | . | . | . | . | 41 |
| Caerdydd | 9 | . | . | . | 27 | . | . | . | . | . | . | . |
| Cyfanswm | 392 | 122 | 95 | 58 | 260 | 34 | 5 | 30 | 32 | 52 | 1 | 81 |

Ffynhonnell: Ymatebion i arolwg o awdurdodau lleol y gofynnwyd iddynt am y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol; cynhaliwyd gan Estyn ar 8 Mai 2015

## Cymorth ac arweiniad

27 Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol yn cyfarfod â disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr i drafod unrhyw opsiynau sydd ar gael iddynt cyn iddynt gael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r opsiynau hyn yn aml yn gyfyngedig iawn. O ganlyniad, er yr ymgynghorir â disgyblion am eu lleoliad yn y dyfodol, nid yw'r opsiynau sydd ganddynt i ddewis o'u plith yn ddigon eang a chytbwys. Yn arbennig, mae'r opsiynau galwedigaethol i ddisgyblion hŷn yn gyfyngedig.

28 Mae disgyblion hŷn yn cael cymorth da gan staff addysg heblaw yn yr ysgol a gweithwyr proffesiynol ychwanegol, fel gweithwyr ieuenctid a staff yn Gyrfa Cymru, i gynllunio'u pontio i'r cam nesaf yn eu bywyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata'n cael ei gasglu ar nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sy'n mynd ymlaen i beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

29 Mae partneriaethau datblygedig gyda CAMHS a'r sector gwirfoddol a chymunedol mewn ychydig awdurdodau lleol. Yn yr ardaloedd hyn, mae disgyblion yn cael cymorth therapiwtig da i fodloni eu hanghenion. Lle y mae'r partneriaethau hyn yn effeithiol, mae'n bennaf oherwydd ymrwymiad gweithwyr unigol CAMHS sy'n deall pwysigrwydd cydweithio ynghylch disgyblion agored i niwed. Fodd bynnag, mae bron pob awdurdod lleol yn cael anawsterau o ran sicrhau bod disgyblion yn manteisio ar arbenigedd CAMHS. O ganlyniad, nid yw staff addysg heblaw yn yr ysgol bob amser yn hyderus bod eu cynllunio a'u hymyriadau yn briodol.

30 Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'n fawr y perthnasoedd meithringar a ddatblygant gyda staff addysg heblaw yn yr ysgol. Siaradant â staff am eu hemosiynau a'u profiadau bywyd. Gwyddant fod staff yn deall eu hanghenion ac yn eu helpu i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad. O ganlyniad, gydag amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu rheoli eu hemosiynau a gwella'u hymddygiad.

31 Mae'r holl ddarparwyr y gwnaethom ymweld â nhw yn cyflogi staff profiadol i fodloni anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Mae llawer o'r staff hyn wedi cael hyfforddiant penodol, er enghraifft mewn gwaith ieuenctid, cwnsela ac fel anogwyr dysgu.

32 Er bod Gyrfa Cymru ac anogwyr dysgu yn rhoi cymorth ac arweiniad parhaus i bron pob un o'r disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ychydig iawn o ddylanwad sydd ganddynt ar y cyfleoedd cwricwlaidd y mae darparwyr yn eu cynnig. O ganlyniad, mae dewisiadau disgyblion wedi'u cyfyngu o hyd i'r rhai a gynigir gan ddarparwyr, yn hytrach na fel rhan o lwybr wedi'i gynllunio.

## Y Cwricwlwm

33 Nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol bob amser yn cael cwricwlwm eang a chytbwys sy'n eu galluogi i gyflawni ac ennill cymwysterau cydnabyddedig yn unol â'u hanghenion a'u potensial.

34 Nid yw addysgu'r pynciau craidd ar gael iddynt yn gyson ac mae ystod y pynciau a'r cymwysterau a ddilynant yn gyfyngedig yn bennaf. Mae'r diffyg hwn yn golygu bod disgyblion yn colli allan ar agweddau pwysig ar addysg, sy'n gallu effeithio ar eu

cyfleoedd am gyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol. Er enghraifft, nid yw disgyblion mewn pedwar darparwr yr ymwelwyd â nhw yn cael cyfleoedd i astudio gwyddoniaeth ar unrhyw lefel gydnabyddedig ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn dilyn cyrsiau wedi'u hachredu mewn iaith dramor fodern na'r Gymraeg. Un rheswm dros hyn yw'r ffaith nad oes gan ddarparwyr y staff, yr adnoddau na'r cyfleusterau arbenigol i gynnig gwyddoniaeth neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er enghraifft. Nid yw'r ystod o arbenigwyr pwnc sy'n ofynnol i addysgu cwricwlwm eang ganddynt bob amser. Mae hyn yn cyfyngu ar ddysgu disgyblion.

35 Nid oes unrhyw ddarpariaeth i ddisgyblion astudio gwyddoniaeth na Chymraeg yn un o'r darparwyr y gwnaethom ymweld â nhw, ac roedd problemau staffio yn golygu nad oedd unrhyw athro Saesneg neu diwtor i ddarparu Saesneg ganddynt adeg yr ymweliad.

36 Ymwelwyd ag UCD cyfnod allweddol 2, wedi'i chomisiynu'n annibynnol, sy'n cynnig cwricwlwm eang ond nad yw'n cynnig Cymraeg fel pwnc craidd i ddisgyblion a arferai gael y Gymraeg yn bwnc craidd. Mae hyn yn groes i ethos polisi dwyieithog yr awdurdod ac mae'n llesteirio cyfleoedd y disgyblion i wneud cynnydd.

37 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn cymwysterau lefel 1 a lefel 2 sy'n seiliedig ar gredydau ac achrediadau lleol eraill, ond dim ond ychydig bach o'r disgyblion a holwyd sy'n dilyn TGAU heblaw ym mhynciau craidd Saesneg a mathemateg. Nifer bach iawn o ddisgyblion sy'n parhau ag unrhyw agweddau ar Fagloriaeth Cymru.

38 Yn un darparwr cyrsiau chwaraeon galwedigaethol, mae disgyblion yn dilyn pynciau craidd y cwricwlwm hefyd. Mae athrawon o'r ysgol gyfeirio yn cyflwyno'r pynciau hyn ar safle'r darparwr. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnal cyfrifoldeb am ddysgu a deilliannau'r disgyblion.

39 Mae bron bob un o'r disgyblion yn cael addysg bersonol a chymdeithasol fel rhan allweddol o fframwaith cwricwlwm y darparwr. Mae'r profiadau dysgu hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion am ystod eang o faterion pwysig, gan gynnwys addysg rhyw a pherthynas, bwlio a strategaeth 'Atal' Llywodraeth y Deyrnas Unedig. At hynny, yr agwedd hon ar y cwricwlwm yw'r adeg pan fydd disgyblion yn cael cyfleoedd yn fwyaf aml i ennill gwell dealltwriaeth o'r agweddau emosiynol ar eu hymddygiad eu hunain. O ganlyniad, gydag amser a chyda chymorth ac arweiniad medrus, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu rheoli eu hemosiynau a gwella'u hymddygiad.

40 Mae nifer bach iawn o ddisgyblion yn cael gwersi addysg gorfforol wythnosol, ond mae hyn bron bob amser ar gyfer ffitrwydd personol, meithrin tîm a ffordd o ddefnyddio egni gormodol, yn hytrach na fel pwnc ffurfiol y gallant ennill cymwysterau cydnabyddedig ar ei gyfer. Mae'r disgyblion yn defnyddio cyfleusterau canolfan chwaraeon leol yn bennaf gan nad yw'r lle na'r offer gofynnol gan y darparwyr.

41 Mae grwpiau bychain o ddisgyblion ac unigolion mewn ychydig awdurdodau lleol yn cael cwricwlwm galwedigaethol amgen sydd wedi'i deilwra'n dda i'w hanghenion. Mae hyn o ganlyniad i gynllunio creadigol a chymorth wedi'i deilwra, yn enwedig gyda gwasanaethau ieuenctid. Yn yr awdurdodau lleol hyn, ynghyd â dysgu medrau galwedigaethol, mae disgyblion yn elwa o gymorth arbenigol i reoli eu hymddygiad a datblygu eu hunan-barch. Mae'r disgyblion hyn yn ennill cymwysterau ym maes dysgu galwedigaethol ac mae hyn yn aml yn eu symbylu i fynd ymlaen i addysgu bellach neu hyfforddiant.

42 Mae llawer o awdurdodau lleol ac ysgolion yn ceisio symbylu disgyblion sydd wedi ymddieithrio o ddysgu ac sydd â phresenoldeb gwael, trwy gynnig opsiynau cwricwlwm amgen byr. Er enghraifft, gall disgyblion ddilyn opsiynau fel cymysgu cerddoriaeth fel DJ, peirianneg ceir rali a cholur y theatr. Mae'r opsiynau'n llunio rhan o lwybr at waith yn y dyfodol neu hyfforddiant pellach.

43 Mewn ychydig bach iawn o awdurdodau lleol, lle y mae perthnasoedd da iawn wedi datblygu gyda darparwyr unigol, mae enghreifftiau o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi diddorol, fel astudiaethau tir a gweithgareddau awyr agored. Mae'r cyrsiau hyfforddi achrededig hyn yn cynnig dilyniant priodol i gyrsiau addysg bellach a gwaith.

44 Mewn pedwar darparwr yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn dilyn ffocws galwedigaethol penodol, er enghraifft medrau trin gwallt a harddwch. Hefyd, derbyniant fedrau craidd llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn cael TGCh. Mae addysgu medrau'n cael ei gynnig yn bennaf gan staff yr awdurdod lleol mewn lleoliad arall.

45 Roedd disgyblion a gafodd eu cyfweld yn ystod ymweliadau â darpariaeth addysg amser llawn heblaw yn yr ysgol wedi mynegi eu siom yn gyson â chael cwricwlwm cyfyngedig. Roeddent yn deall y byddai hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ennill cymwysterau galwedigaethol defnyddiol ac y byddai hyn, yn y pen draw, yn rhwystro'u rhagolygon mewn bywyd.

46 Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â barn gadarnhaol y nifer bach iawn o ddisgyblion sy'n cael darpariaeth addysg ran-amser, alwedigaethol, heblaw yn yr ysgol. Roedd y disgyblion hyn yn unfrydol gadarnhaol y byddai'r medrau yr oeddent yn eu datblygu yn eu helpu i fynd i'r coleg neu i gael swydd. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn wedi cael cymorth ac arweiniad defnyddiol gan yr anogwr dysgu, Gyrfa Cymru neu weithiwr ieuenctid i'w helpu i benderfynu ar faes hyfforddiant galwedigaethol sy'n addas i'w hanghenion a'u diddordebau.

## Y ddarpariaeth Gymraeg

47 Saesneg yw iaith gyntaf bron pob un o'r disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Yn gyffredinol, dywed awdurdodau lleol fod cyfran y disgyblion sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy isel iddi fod yn ymarferol sefydlu neu gomisiynu cymorth grŵp. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn mynychu darpariaeth a gyflwynir trwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw eu hawdurdodau lleol yn trefnu darpariaeth iddynt barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg.

48 Nid oedd unrhyw ddarparwr y gwnaethom ymweld â nhw yn cynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceisiant recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i weithio'n unigol gyda disgyblion Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn bob amser yn athrawon cymwysedig. Mae'r trefniadau hyn yn creu nifer o broblemau posibl. Er enghraifft, efallai na fydd disgyblion yn gallu parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd mae'n bosibl nad yw staff nad ydynt yn athrawon yn meddu ar ddigon o arbenigedd pwnc, yn enwedig ar draws ystod o bynciau. At hynny, efallai nad yw disgyblion sydd wedi bod yn cael addysg cyfrwng Cymraeg yn meddu ar yr eirfa dechnegol yn Saesneg i drosglwyddo'u dysgu i'r Saesneg yn hawdd.

49 Nid oedd staff mewn un darparwr y gwnaethom ymweld ag ef yn gwybod bod dau ddisgybl yn siarad Cymraeg mamiaith. Mewn trafodaeth ag arolygwyr, dywedodd y disgyblion hyn y byddai'n anodd iawn dychwelyd i ysgol brif ffrwd leol gan fod eu holl addysgu ym Mlwyddyn 9 wedi bod trwy gyfrwng y Saesneg.

**Oriau'r ddarpariaeth**

50 Mae hawl gan ddisgyblion sy'n cael eu holl ddarpariaeth neu'r rhan fwyaf ohoni ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol fanteisio ar addysg amser llawn wedi'i goruchwylio neu weithgarwch arall sy'n cyfateb i'r hyn a gynigir yn y brif ffrwd yn yr ardal. Nid yw Arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru (2016) yn nodi nifer penodol yr oriau addysg y mae gan ddisgyblion hawl iddynt. Fodd bynnag, mae'n nodi y dylai disgyblion gael at ddarpariaeth amser llawn 15 niwrnod ar ôl cael eu gwahardd yn barhaol neu am gyfnod penodol.

51 Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a), nifer cyfartalog yr oriau addysg a ddarparwyd i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn ystod wythnos cyfrifiad ysgolion 2015 oedd 20.5 awr.

52 Mae rhaglenni cymorth bugeiliol yn galluogi rhai disgyblion i gael amserlen lai dros dro. Gall hyn eu helpu i fynychu'n rheolaidd a chefnogi eu pontio yn ôl i addysg amser llawn. Gall hyn fod yn arbennig o wir yn achos disgyblion ag anghenion iechyd. Fodd bynnag, i lawer gormod o ddisgyblion, mae'r rhaglenni hyn yn fesur hirdymor amhriodol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn cael eu hawl i addysg ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddysgu. Nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu disgyblaeth y drefn y bydd ei hangen arnynt ar gyfer coleg neu waith.

53 Roedd chwech o'r 11 darparwr y gwnaethom ymweld â nhw yn cynnig 25 awr o ddarpariaeth. Yma, mae disgwyl i'r disgyblion fynychu'n ddyddiol. Mae cyrsiau galwedigaethol a gwersi gartref bron bob amser yn rhai rhan-amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu cyrsiau galwedigaethol o hyd at dridiau'r wythnos hefyd yn mynychu darpariaeth arall lle y cânt addysg ar fedrau a phynciau. Ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol brif ffrwd am unrhyw ran o'r wythnos. Anaml iawn y mae disgyblion sy'n cael gwersi gartref yn cael mwy na 10 awr o addysg bob wythnos. Mae'r disgyblion hyn yn cael llawer llai na'r addysg amser llawn a gynigir gan ysgolion prif ffrwd lleol. Mae anghenion iechyd sylweddol ychydig bach o ddisgyblion yn rhwystr rhag derbyn oriau pellach.

54 Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae trafodaethau â disgyblion am eu cofnodion presenoldeb blaenorol yn yr ysgol yn awgrymu bod addysg heblaw yn yr ysgol yn helpu iddynt wella'u presenoldeb. I'r disgyblion hyn, mae tri factor allweddol sy'n eu symbylu i wella presenoldeb: y staff yn y darparwr; y cwricwlwm amgen; y cludiant sydd wedi'i drefnu i fynychu addysg heblaw yn yr ysgol. Fodd bynnag, yn anaml iawn y mae cofnodion presenoldeb o ysgolion blaenorol disgyblion ar gael i ddarparwyr gymharu presenoldeb yn y gorffennol.

## Cymwysterau, medrau a phrofiad darparwyr

55 Mae pob un o'r darparwyr y gwnaethom ymweld â nhw yn meddu ar o leiaf ddwy flynedd o brofiad o ddarparu cyrsiau i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae dau ddarparwr yn rhan o sefydliad mwy sy'n cynnig hyfforddiant yn y gwaith a darpariaeth arall. Mae'r darparwyr galwedigaethol y gwnaethom ymweld â nhw yn meddu ar o leiaf 10 mlynedd o brofiad o ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae ganddynt brofiad helaeth ym maes eu harbenigedd galwedigaethol.

56 Mae cymwysterau staff yn amrywio ar draws y darparwyr y gwnaethom ymweld â nhw. Mae lleiafswm o un athro cymwys a staff cymorth allweddol eraill, fel anogwyr dysgu, gan bron pob un o'r rhai sy'n cynnig medrau sylfaenol a chraidd. Yn gyffredinol, mae'r athrawon hyn wedi bod yn gweithio mewn addysg heblaw yn yr ysgol a'r tu allan i ysgolion am fwy na thair blynedd. Nid ydynt wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant diweddar i athrawon prif ffrwd ar ddatblygiadau'r cwricwlwm. Nid ydynt bob amser yn gwybod am arfer bresennol. Ar y cyfan, nid yw athrawon sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau preifat, gwirfoddol neu gymunedol yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol gwella ysgolion. Mae hyn yn golygu eu bod yn colli cyfleoedd i rwydweithio ag ymarferwyr presennol ac nid ydynt yn gwybod yn hawdd ymhle y gallent weld arfer dda. Ychydig iawn o'r athrawon hyn sy'n ymweld ag ysgolion prif ffrwd i ddysgu am arfer bresennol y cwricwlwm. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gynnig cwricwlwm sy'n cyd-fynd â chwricwlwm ysgolion prif ffrwd.

57 Ychydig bach o ddarparwyr yn unig sy'n cyflogi staff sydd â chymwysterau a phrofiad o gynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. O ganlyniad, nid oes gan bob un ohonynt y medrau i gefnogi anghenion disgyblion yn briodol, hyd yn oed pan fydd yr anghenion hyn yn cael eu hamlygu ar eu datganiad o anghenion addysgol arbennig. Lle y bo hyn yn digwydd, mae awdurdodau lleol yn methu â bodloni eu hymrwymiadau statudol i sicrhau bod y ddarpariaeth sydd wedi'i phennu yn natganiad disgybl o anghenion addysgol arbennig yn cael ei diwallu.

58 Nid oes athrawon cymwys gan yr holl ddarparwyr galwedigaethol y gwnaethom ymweld â nhw. Fodd bynnag, mae gan bob un ohonynt amrywiaeth o staff medrus sydd â chymwysterau yn y maes galwedigaethol penodol a gynigir, fel gweithgareddau awyr agored, coedwigaeth, a thrin gwallt a harddwch. Ar y cyfan, mae hyn yn briodol gan fod disgyblion yn mynychu'r darparwyr hyn yn rhan-amser ac mae'r awdurdod lleol yn trefnu addysgu iddynt yn y pynciau craidd mewn UCD, ysgol prif ffrwd, neu ganolfan ddarpariaeth amgen. Ymwelom ag un darparwr sydd â chysylltiadau â chlwb chwaraeon proffesiynol. Yma, mae cwricwlwm craidd yn ategu hyfforddiant chwaraeon proffesiynol er mwyn cynnig darpariaeth amser llawn. Mae gan ddisgyblion mwy talentog sy'n cael y ddarpariaeth hon lwybr gyrfaol realistig tuag at waith yn y gamp hon. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i fanteisio ar y math hwn o addysg heblaw yn yr ysgol wedi'u cyfyngu i nifer bach o ddisgyblion. Mae UCD ar gyfer cyfnod allweddol 2, a gomisiynwyd yn annibynnol ac sydd wedi'i lleoli mewn canolfan gweithgareddau awyr agored, yn cyflogi athrawon a staff cymorth profiadol sy'n hyfforddwyr cymwys gweithgareddau awyr agored.

## Pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni mewn addysg heblaw yn yr ysgol?

### Deilliannau disgyblion

59 Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cymharu cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol â meincnodau'r teulu na meincnodau lleol neu genedlaethol. Fodd bynnag, mae bron bob un o'r disgyblion yn astudio ystod gyfyngedig o bynciau. O ganlyniad, dim ond ychydig bach o ddisgyblion sy'n cyflawni cystal â'u cymheiriaid mewn ysgolion prif ffrwd, ar draws ystod debyg o bynciau.

60 Ychydig bach o ddisgyblion sy'n ennill graddau TGAU A*-C ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ond yn astudio ystod fechan o gymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau neu TGAU lefel mynediad. Nid ydynt bob amser yn cael cyfleoedd i astudio cyrsiau lefel uwch, hyd yn oed pan fydd y rhain yn fwy addas i'w galluoedd. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol.

61 Nid yw disgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl, yn cyflawni eu potensial yn gyson. Ar y cyfan, cyflawnant y targedau y mae darparwyr yn eu gosod iddynt ac enillant achrediad ar gyfer eu dysgu, ond mae'r targedau hyn yn rhy isel yn aml.

62 Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol yn ennill y cymwysterau perthnasol. Fel arfer, mae'r rhain yn gymwysterau lefel 1 a 2 sy'n seiliedig ar gredydau ar lefel tystysgrif, tystysgrif estynedig neu ddiploma. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn galluogi disgyblion i ennill cyfwerth â 4 TGAU. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r fframwaith cymwysterau yn gostwng y rhain i fod cyfwerth â dau gymhwyster TGAU. Mae bron pob un o'r penaethiaid y gwnaethom eu cyfweld yn pryderu y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

63 Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyflawni cymwysterau wedi'u hachredu'n genedlaethol ar gyfer y medrau hyn yn aml. Yn benodol, nid yw'r disgyblion hyn yn aml yn cael cyfleoedd i ddatblygu'u medrau TGCh.

64 Nid yw anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu bodloni'n llawn bob amser, hyd yn oed disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Yn aml, nid ydynt yn cael cymorth arbenigol i'w helpu i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae medrau cyfathrebu a meddwl disgyblion yn aml wedi'u tanddatblygu'n sylweddol.

65 Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran gwella'u lles. Gydag amser a chymorth arbenigol lle bo'r angen, maent yn gwella'u hymddygiad ac yn dysgu rheoli eu hemosiynau.

### Profiadau disgyblion

66 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â staff. Yn gyffredinol, maent yn ymddiried mewn staff ac yn hyderus y bydd staff yn ceisio'u helpu, beth bynnag fo'u problem.

67 Er gwaethaf yr agweddau cadarnhaol hyn, mae llawer o ddisgyblion yn rhwystredig nad oes cwricwlwm llawn ar gael iddynt. Deallant fod eu bywyd yn y dyfodol, astudiaethau pellach a chyfleoedd gwaith yn gyfyngedig o'r herwydd. Er enghraifft, roedd un disgybl eisiau mynd ymlaen i astudio celf mewn coleg addysg bellach ac mewn addysg uwch. Fodd bynnag, gwyddai fod hyn yn annhebygol gan nad oedd yn astudio celf fel un o'i bedair TGAU.

68 Wedi iddynt gael addysg heblaw yn yr ysgol, dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn colli cysylltiad â'u ffrindiau mewn ysgol prif ffrwd. Maent yn datblygu cyfeillgarwch newydd â chyfoedion mewn addysg heblaw yn yr ysgol ond, yn aml, ni fydd y disgyblion hyn yn byw gerllaw felly mae'n anodd cwrdd â ffrindiau y tu allan i amser ysgol. Nid yw hyn yn rhoi cymhelliant iddynt fynd yn ôl i'r brif ffrwd, hyd yn oed pan fydd hyn yn bosibilrwydd.

## Pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cynllunio, rheoli, monitro ac arfarnu addysg heblaw yn yr ysgol?

69 Mae addysg heblaw yn yr ysgol yn nodwedd gyson mewn cynlluniau strategol allweddol awdurdodau lleol, fel y Cynllun Sengl a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn yn aml yn arwain at bolisi effeithiol na chydlynu cadarn sy'n datblygu arferion cyson ar draws yr holl sefydliadau sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar wella agweddau yn unig ar addysg heblaw yn yr ysgol, fel UCDau, gwahardd, presenoldeb a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

70 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn amlinellu mesurau priodol ar gyfer amlygu disgyblion y gallai fod angen addysg heblaw yn yr ysgol arnynt yn gynnar. Fel arfer, mae'r fframweithiau hyn yn nodi prosesau i drefnu cymorth a sefydlu systemau i olrhain cynnydd disgyblion. Disgrifiant sut y bydd awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth a llwybrau at addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'n rhy fuan eto i weld effaith y cynlluniau hyn. Yn gyffredinol, nid yw defnyddio data am gyrchfannau fel rhan o arfarniad o addysg heblaw yn yr ysgol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

71 Mae ychydig awdurdodau lleol yn dechrau cynllunio darpariaeth ar sail dadansoddiad o anghenion y farchnad lafur leol. Mae o leiaf un awdurdod lleol wedi lleoli ei gydlynydd Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn yr Adran Datblygu Economaidd er mwyn helpu i fanteisio ar y cysylltiadau posibl. Hyd yma, mae'n rhy gynnar i weld buddion hyn.

72 Nid yw'r meini prawf ar gyfer cael at addysg heblaw yn yr ysgol, a'i gadael, yn glir mewn llawer o awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn fodlon â hygyrchedd y ddarpariaeth i'w disgyblion, ond nid ydynt bob amser yn siŵr beth yw'r prosesau swyddogol y dylent eu dilyn. Maent yn dibynnu ar gydweithio da â swyddogion penodol i sicrhau bod disgyblion yn symud ymlaen o'r ysgol i ddarpariaeth amgen. Nid ydynt bob amser yn deall yn glir pa mor hir mae'n rhaid i ddisgyblion aros cyn iddynt ddechrau'r ddarpariaeth newydd. Nid yw ysgolion yn dilyn cynnydd disgyblion sy'n parhau â chofrestru deuol ond sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn rheolaidd.

73 Mewn ychydig awdurdodau lleol, mae'r prosesau cyfeirio at addysg heblaw yn yr ysgol wedi'u rheoli'n dda ac mae ysgolion yn deall y broses yn glir ac yn monitro cynnydd disgyblion pan fyddant yn cael addysg heblaw yn yr ysgol. Yma, mae addysg heblaw yn yr ysgol ar gael yn bennaf trwy ddull cam wrth gam, gyda chymorth yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Hefyd, caiff cymorth ei gynnig i feithrin gallu staff ysgol i reoli ymddygiad yn effeithiol ac yn gyson. Mewn ardaloedd trefol â systemau cyfeirio effeithiol, mae paneli symudiadau rheoledig yn cynorthwyo â throsglwyddo disgyblion rhwng ysgolion yn hwylus. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, mae'r pellteroedd rhwng ysgolion yn atal symudiadau effeithiol rheoledig. Yn yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol, mae dewisiadau amgen wedi'u datblygu i fodloni eu hanghenion lleol, fel darpariaeth gwahardd mewnol ysgolion a darpariaeth ardal leol.

74 Mae awdurdodau lleol yn parhau i addysgu disgyblion mewn UCDau heb eu cofrestru. Nid ydynt yn sylweddoli y dylent hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw ganolfan, er enghraifft canolfannau gwersi gartref, lle y maent yn rhoi addysg i ddisgyblion.

75 Mae llawer o awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr annibynnol trwy gaffael. Mae hyn yn eu galluogi i amlinellu manylebau a disgwyliadau clir, fel canolfan leol, cynnig cymwysterau penodol a chael arbenigedd penodol ymhlith staff. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn gwarantu y bydd disgyblion yn gallu manteisio'n gyfartal ar eu hawl, yn yr un modd â'u cymheiriaid.

76 Mae ychydig awdurdodau lleol yn comisiynu darpariaeth ar gyfer nifer fawr o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gontract allanol yn gweithio'n debyg iawn i UCDau, er nad yw disgyblion yn symud i mewn ac allan mor hawdd ag y dylai ddigwydd mewn UCD effeithiol. Nid yw pob darparwyr addysg amser llawn heblaw yn yr ysgol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion wedi cofrestru'n ddarparwyr addysg annibynnol gyda Gweinidogion Cymru.

77 Gan amlaf, prin iawn yw'r wybodaeth am anghenion disgyblion unigol a roddir i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol cyn lleoli'r disgyblion. Mae gwybodaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar eu hymddygiad a'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u gwahardd. Anaml iawn y mae darparwyr yn cael data blaenorol am bresenoldeb ac asesu nac unrhyw fanylion am anghenion a phrofiadau dysgu. Mae hyn yn golygu mai ychydig bach iawn o wybodaeth sydd gan ddarparwyr i'w defnyddio i gynllunio ar gyfer anghenion unigol y disgyblion hyn. Yn fwyaf aml, mae staff yn cynnal asesiad gwaelodlin o'r holl ddisgyblion newydd ac yn cynllunio ar gyfer eu hanghenion unigol gan ddefnyddio'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn cael yr hyfforddiant ychwanegol nac yn meddu ar y profiad i asesu neu gefnogi anghenion

addysgol arbennig disgyblion. Yn gyffredinol, nid ydynt yn troi at wasanaeth seicoleg addysg yr awdurdod lleol nac arbenigwyr preifat i'w helpu i ddeall anghenion dysgu disgyblion.

78 Mae gan yr holl awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw ystod briodol o bolisïau ac arweiniad ar gyfer diogelu disgyblion, rheoli ymddygiad disgyblion a defnyddio ymyriadau corfforol cyfyngol. Mae darparwyr yn cael yr un hyfforddiant â staff awdurdodau lleol mewn perthynas â'r agweddau hyn. Fodd bynnag, mewn ychydig bach o ddarparwyr annibynnol, mae dryswch ynghylch p'un ai a ddylent ddilyn gweithdrefnau diogelu'r awdurdod lleol neu weithdrefnau eu rhiant gwmni.

79 Dywed penaethiaid, swyddogion cynhwysiant ac uwch arweinwyr mewn awdurdodau lleol fod anghysondebau mewn dehongli gofynion statws cofrestru disgyblion. Mae'n ofynnol i ysgolion gofrestru unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu ysgol arall neu UCD yn ddeuol. Dylid cofnodi bod disgyblion sy'n mynychu darpariaeth a drefnwyd gan yr ysgol neu y mae'r ysgol wedi cytuno iddi, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol yn y coleg neu brofiad gwaith fel rhan o gwricwlwm amgen, yn derbyn addysg oddi ar y safle. Dylai disgyblion sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith estynedig gael eu cofnodi ar wahân. Pan fydd disgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol am gyfnod estynedig ac nid yw'n debygol y byddant yn dychwelyd i addysg prif ffrwd, gallai eu statws cofrestru newid.

80 Mae amrywiaeth o drefniadau ynghylch pa ysgol/UCD yw'r brif ysgol a pha un yw'r is-sefydliad pan fydd disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol. Mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ble y caiff data perfformiad y disgybl ei gofrestru. Mewn o leiaf un awdurdod lleol, caiff ysgolion eu cynghori i dynnu disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol o'r gofrestr cyn casglu data CYBLD yn Ionawr. O ganlyniad, caiff data perfformiad ysgolion ei adrodd yn anghyson ar draws Cymru.

81 Mae potensial am anghysondebau mewn data pan fydd disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau a drefnwyd gan y rhwydwaith 14-19 o ddarparwyr lleol a phan fydd ysgolion yn trefnu darpariaeth amgen. Roedd y penaethiaid y gofynnwyd iddynt gynnig diffiniad o addysg heblaw yn yr ysgol wedi nodi'n gyson 'unrhyw addysg heblaw addysg yn yr ysgol'. Nid oedd unrhyw ddealltwriaeth gyson ynghylch a ddylai hyn gynnwys darpariaeth a gafwyd drwy'r rhwydwaith 14-19 o ddarparwyr lleol neu ddarpariaeth a drefnwyd gyda darparwyr eu hunain. Mae llawer o ysgolion yn comisiynu darpariaeth amgen y tu allan i leoliad yr ysgol yn annibynnol ar eu hawdurdodau lleol ac mae pob ysgol yn comisiynu drwy'r rhwydwaith 14-19 o ddarparwyr lleol.

82 Nid oedd yr un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn casglu data ar y ddarpariaeth amgen a gomisiynwyd gan ysgolion, hyd yn oed pan oedd disgyblion yn mynychu'r ddarpariaeth hon am bum niwrnod bob wythnos. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cofnodion o bob disgybl sy'n cael ei addysgu'r tu allan i'r ysgol, naill ai'n rhan-amser neu'n amser llawn. Mae'r wybodaeth yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn atebol am gyflawni eu dyletswydd i ddarparu addysg addas a phriodol i bob person ifanc o oed ysgol gorfodol.

83 Caiff hyn oblygiadau arwyddocaol i gynllunio ac arfarnu gan awdurdodau lleol. Er enghraifft, ni all swyddogion ac aelodau etholedig lunio barn wybodus am berfformiad ysgolion nac effeithiolrwydd ysgolion i gynnwys pob disgybl, os nad ydynt yn glir

ynghylch p'un ai yw ysgolion yn addysgu eu holl ddisgyblion mewn gwirionedd. Ni allant ychwaith arfarnu gwir gost addysg heblaw yn yr ysgol ar draws yr awdurdod lleol.

84 Ychydig bach o awdurdodau lleol yn unig sydd â systemau trylwyr i fonitro addysg heblaw yn yr ysgol yn rheolaidd a sicrhau bod yr holl ddarpariaeth o ansawdd uchel. Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw yn cydnabod bod angen gwella'u prosesau ac maent naill ai wrthi'n adolygu'r rhain neu'n bwriadu eu hadolygu.

85 Mae gwybodaeth bron bob awdurdod lleol am nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yr oriau a fynychant, eu deilliannau perfformio gan gynnwys cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, y niferoedd sy'n dychwelyd i'r brif ffrwd neu'r niferoedd sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith, yn annibynadwy. Mae hyn oherwydd nid oes ganddynt drosolwg cynhwysfawr o amrywiol elfennau addysg heblaw yn yr ysgol, fel gwersi gartref, presenoldeb mewn gwersi grŵp mewn colegau addysg bellach, darpariaeth wedi'i threfnu gan y Gwasanaethau Ieuenctid, y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid neu'r gwasanaethau iechyd, neu ddarpariaeth sydd wedi'i threfnu gyda darparwyr annibynnol.

86 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae gwasanaethau cynhwysiant yn cadw cofnodion da o bresenoldeb ac ymddygiad. Hefyd, mae darparwyr yn adrodd ar ddata perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Anaml iawn y mae awdurdodau lleol yn cysylltu data addysg heblaw yn yr ysgol â data perfformiad ysgolion eraill i fonitro'r tueddiadau mewn deilliannau ar draws grwpiau o ddisgyblion. Nid ydynt yn monitro effaith tynnu disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol o'r gofrestr ar ddata perfformiad ysgolion. Nid yw'r un awdurdod lleol y gwnaethom ymweld ag ef yn cymharu deilliannau disgyblion ar draws yr ystod o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a darparwyr amgen i weld pa fath o ddarpariaeth sy'n galluogi disgyblion i berfformio orau. Fel arfer, mae'n ofynnol i ddarparwyr anfon adroddiadau ar ddisgyblion at ysgolion a'r awdurdod lleol yn wythnosol, ond mae'r adroddiadau'n canolbwyntio ar bresenoldeb ac ymddygiad yn hytrach nag ar berfformiad academaidd.

87 Mae bron bob awdurdod lleol yn defnyddio'u swyddogion eu hunain i sicrhau bod darparwyr yn bodloni canllawiau iechyd a diogelwch. Er bod hyn yn sicrhau bod safleoedd addysg heblaw yn yr ysgol yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol, nid yw'r safleoedd yn addas at eu diben yn aml. Er enghraifft, nid oes ganddynt gyfleusterau gwyddoniaeth nac addysg gorfforol, ac anaml iawn y mae ganddynt gyfleusterau i ddisgyblion gael cinio poeth. Yn ogystal, nid ydynt yn hawdd i ddisgyblion eu cyrraedd.

88 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae aelodau'n cael adroddiadau rheolaidd am y ddarpariaeth a'r deilliannau i ddisgyblion mewn UCDau. Mae aelodau etholedig y gwnaethom gyfweld â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn yn wybodus iawn am ystod o ddata perfformiad ar gyfer disgyblion mewn ysgolion ac UCDau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddata presenoldeb a gwyddant hefyd am berfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 a chyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

89 Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau i aelodau etholedig yn eu galluogi i farnu perfformiad pob agwedd ar yr addysg heblaw yn yr ysgol y mae’r awdurdod lleol yn ei darparu, ac sy’n cael ei darparu ar gyfer yr awdurdod lleol. O ganlyniad, nid oes ganddynt wybodaeth glir am yr hyn sy’n cael ei ddarparu, pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd a faint sy’n cael ei wario ar addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hawdurdod lleol. Ychydig iawn o aelodau etholedig arweiniol sy’n ymweld ag addysg heblaw yn yr ysgol, heblaw UCDau, i gwrdd â disgyblion a staff.

90 Er bod gan awdurdodau lleol enghreifftiau o addysg heblaw yn yr ysgol sy’n bodloni anghenion disgyblion unigol yn dda, nid yw hyn yn gyson. Nid oes digon o ddisgyblion yn cael gwasanaeth da sy’n bodloni eu hanghenion, yn eu galluogi i wneud cynnydd da ac yn eu paratoi’n dda am ddyfodol llwyddiannus.

**Astudiaeth achos 1: Cynnydd o ran adnabod yn gynnar y disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Ngwynedd**

**Cyd-destun**

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Nod y Fframwaith yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn galw am weithio agos rhwng partneriaid a gwasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys Gyrfa Cymru, gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol, ysgolion a darparwyr eraill. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu i ategu'r gwaith hwn.

Mae cytundeb i rannu gwybodaeth bersonol ar draws asiantaethau, trwy brotocol rhannu gwybodaeth, yn cynorthwyo awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'r trefniadau rheoli strategol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith ar draws Cymru. Yn awdurdod lleol Gwynedd, mae'r protocol yn dechrau gwneud gwahaniaeth o ran adnabod disgyblion mewn perygl yn gynnar.

**Strategaeth**

Cytunwyd ar system frocera dri cham i sicrhau bod ysgolion ac asiantaethau eraill yn deall gweithdrefnau mewn achosion o bryder.

Cam 1: Mae'r pennaeth a'r Swyddog Cynhwysiant yn trafod pryderon ac yn rhannu gwybodaeth. Caiff disgyblion eu nodi gan ddefnyddio offeryn nodi cynnar sy'n casglu data sydd ar gael yn hwylus ac sy'n creu rhestr o ddisgyblion, gan ddechrau gyda'r rhai y tybir eu bod â'r perygl mwyaf o ymddieithrio. Mae'r offeryn yn defnyddio data ar gyrhaeddiad, presenoldeb, gwaharddiadau a nifer yr ysgolion blaenorol.

Cam 2: Mae panel amlasiantaeth yr ysgol ei hun yn trafod yr achos ac yn enwi gweithiwr allweddol. Mae'r panel hwn yn dwyn ynghyd y gweithwyr proffesiynol sydd â chysylltiad agos â'r ysgol ac mae'n cynnwys cwnselydd a swyddog lles yr ysgol. Yn dilyn y cyfarfod hwn, caiff gweithiwr allweddol ei neilltuo a rhoddir y cyfrifoldeb iddo am greu a monitro cynllun gweithredu personol gyda disgybl. Caiff cynnydd ei fesur bob tymor gan ddefnyddio'r data o'r offeryn nodi cynnar.

Cam 3: Mynediad at banel amlasiantaeth awdurdod lleol. Mae panel amlasiantaeth yr awdurdod lleol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant, y gwasanaeth troseddu ieuenctid, Gyrfa Cymru a'r sector gwirfoddol, ynghyd â gweithiwr cymdeithasol addysg, cwnselydd ysgol, y Swyddog Cynhwysiant a Phennaeth Cynorthwyol addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r panel yn trafod yr achos ac yn penderfynu ar ymyriadau a phroses fonitro. Yna, mae'n rhoi gwybod i weithwyr allweddol a staff yr ysgol am y canlyniad.

**Canlyniad**

Mae disgyblion yn cael cymorth priodol yn amserol. Er enghraifft, maent yn gallu cael at 25 awr o gwricwlwm amgen, gan gynnwys pynciau TGAU craidd a phrofiad gwaith estynedig. Yn ogystal, lle y bo'n briodol, gall disgyblion gael pecyn o gymorth gan weithiwr iechyd meddwl, gweithiwr ymgysylltu ieuenctid a chynghorydd Gyrfa Cymru.

Lle bo'r angen, bydd gweithiwr cymdeithasol addysg yn gweithio gyda'r disgybl a'i deulu i gefnogi presenoldeb neu ailintegreiddio. Yn ystod 2015-2016, mae 240 o ddisgyblion wedi elwa o wasanaethau ychwanegol, gydag 20 yn derbyn pecynnau cymorth mwy dwys.

O ganlyniad i'r dull cynlluniedig newydd hwn, mae un disgybl a gafodd ei gwahardd yn ddiweddar bellach yn cydweithredu â gweithiwr allweddol i ddatblygu cynllun datblygu unigol. Mae hi'n ystyried cyrsiau galwedigaethol addas yn y coleg addysg bellach lleol. Yn bwysig, mae hi bellach yn barod i dderbyn ymyrraeth ac yn deall ei hangen i wella'i medrau cyfathrebu.

**Astudiaeth achos 2: Clwb chwaraeon proffesiynol yn gweithio gydag ysgolion drwy ei brosiect Cymell a Dysgu**

**Cyd-destun**

Mae clwb chwaraeon proffesiynol ac ysgolion yn yr awdurdod lleol wedi llunio partneriaeth effeithiol. Mae cynllun Cymell a Dysgu'r bartneriaeth yn cynnig cwricwlwm amgen a chyfleoedd i brofi hyfforddiant mewn amgylchedd gwaith i ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio o addysg. Mae'r cynllun yn darparu addysg i unigolion a grwpiau bychain o ddisgyblion. Mae ysgolion ac UCD yn comisiynu'r ddarpariaeth trwy gytundeb lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion sydd eisoes yn cael addysg heblaw yn yr ysgol i gael at y ddarpariaeth hon yn dibynnu ar argaeledd staff.

Mae cynllun Cymell a Dysgu yn rhan o amrywiaeth o ddarpariaeth amgen a ddatblygwyd gan y clwb a'i bartneriaid.

**Strategaeth**

Mae cynllun Cymell a Dysgu yn darparu cwricwlwm pwrpasol i fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae'r cwricwlwm unigoledig hwn yn galluogi disgyblion i ddilyn eu cwricwlwm a throsglwyddo rhwng yr ysgol a'r cynllun yn hwylus. Bob blwyddyn, mae'r clwb yn cefnogi un neu ddau ddisgybl amser llawn a charfan fechan o ddisgyblion rhan-amser. Nodwyd y disgyblion hynny sy'n cymryd rhan yn ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu sydd eisoes wedi'u gwahardd.

Yn ogystal, mae'r clwb yn cynnal cyfres o wythnosau cymhelliant i ddysgwyr Blwyddyn 9 sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae tair ysgol uwchradd yn yr ardal wedi ymrwymo i'r cyrsiau hyn.

Mae dau athro Cymell a Dysgu yn cyflwyno'r cwricwlwm unigol a ddarperir gan yr ysgolion i bob disgybl. Mae hyn yn cynnwys TGAU ac amrywiaeth o gymwysterau eraill. Yn ystod cyfnod disgyblion yn y cynllun, mae staff yn cadw mewn cysylltiad â'r ysgolion drwy'r e-bost, y ffôn ac ymweliadau rheolaidd.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion sy'n cael eu cyfeirio at y cynllun ddiddordeb mewn chwaraeon, sy'n eu cymell i gymryd rhan. Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ddefnyddio'r cyfleusterau pêl-droed a rygbi yn y clwb. Yn ogystal, mae chwaraewyr proffesiynol yn cymryd rhan er mwyn cefnogi ymgysylltiad disgyblion yn ystod eu cyfnod yn y cynllun.

Mae disgyblion yn mynychu cyfweliad cychwynnol gyda'u rhieni a staff ysgol i gytuno ar y pecyn cymorth unigol. Gyda'i gilydd, maent yn datblygu cynllun pwrpasol sy'n bodloni anghenion y disgybl unigol. Pan fyddant yn mynychu'r cynllun, mae patrwm rheolaidd o gyswllt rhwng eu hysgol a staff yn y cynllun. Mae ysgolion yn rhoi gwaith i'r cynllun ei roi i ddisgyblion unigol ac maent yn cadw mewn cysylltiad â disgyblion a staff i fonitro eu cynnydd. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod ysgolion yn cynnal cyfrifoldeb am eu disgyblion.

Mae bron bob un o'r dysgwyr yn cael 25 awr o addysg naill ai ar sail amser llawn yn y cynllun neu'n rhan-amser yn y cynllun ac yn rhan-amser yn yr ysgol. Mae disgyblion sy'n derbyn darpariaeth amser llawn fel arfer yn treulio'r flwyddyn academaidd yn y cynllun yn dilyn mis o gyfnod prawf llwyddiannus. Bechgyn blwyddyn 11 yw bron bob un o'r disgyblion sy'n cael eu cyfeirio.

Ar hyn o bryd, mae tair ysgol yn defnyddio'r cynllun fel rhan o'u strategaeth ymyrryd cynnar. Dim ond ar ôl rhoi cynnig ar holl strategaethau'r ysgol y byddant yn troi at y ddarpariaeth. Mae ysgolion yn monitro presenoldeb, ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion yn fanwl.

**Canlyniadau**

Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwella'u presenoldeb a'u hymddygiad. Mae mwyafrif y disgyblion blaenorol wedi trosglwyddo i addysg bellach yn y coleg lleol. Fe wnaeth nifer bach ddychwelyd i'r clwb fel gweithwyr.

**Astudiaeth achos 3: Cynigir cyfle i ddisgyblion brofi her gweithgareddau awyr agored**

**Cyd-destun**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae ysgolion yn eu cyfeirio at wasanaeth cynhwysiant yr awdurdod lleol yn fynychwyr gwael, wedi dadrithio neu wedi'u gwahardd o'r ysgol. Oherwydd natur wledig yr awdurdod hwn, mae trosglwyddo i ysgol arall yn anymarferol ar y cyfan. Yn rhannol oherwydd hyn, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu partneriaethau gydag ystod o ddarparwyr lleol er mwyn cynnig addysg amgen i ddisgyblion. Ar y cyfan, mae'r cyfleoedd hyn wedi llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion.

Mae un darparwr o'r fath yn ganolfan sefydledig ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Yma, caiff hyfforddiant cymell heriol a chymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol eu cynnig i ddisgyblion.

Nid yw'r darparwr hwn wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel darparwr annibynnol addysg. Fodd bynnag, mae wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur, i ddarparu gweithgareddau chwaraeon dŵr, dringo a cherdded.

**Strategaeth**

Mae disgyblion yn mynychu'r ganolfan yn rhan-amser am hyd at ddwy flynedd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cael eu cyfeirio trwy'r awdurdod lleol, ond mae ysgolion yn comisiynu lleoliadau ar gyfer disgyblion unigol hefyd.

Caiff disgyblion gyfleoedd i brofi amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored a medrau cysylltiedig pwysig fel cymorth cyntaf. Er bod y medrau a ddysgant yn canolbwyntio ar eu datblygiad unigol, mae'r gweithgareddau'n aml yn galw am waith tîm. Trwy eu profiadau, mae disgyblion yn dysgu aros eu tro a gofalu am ei gilydd. Dysgant gymryd cyfrifoldeb a datblygu'r hyder sy'n ofynnol i arwain pobl eraill.

Mae'r profiadau cyffrous, fel caiacio a dringo, yn cefnogi datblygiad medrau galwedigaethol disgyblion tra byddant yn gwella'u hyder a'u hunan-barch. Er enghraifft, pan fyddant yn dechrau yn y ganolfan, mae disgyblion yn aml yn amharod i roi cynnig ar y gweithgareddau, yn enwedig gan nad ydynt yn adnabod y disgyblion eraill. Fodd bynnag, mae'r ganolfan yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau a daw'r gweithgaredd dysgu yn ffocws iddynt. I lawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion addysgol arbennig, fel anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg sylw, efallai mai dyma'r tro cyntaf iddynt allu canolbwyntio'n llwyr ar ddysgu medr. Gydag amser, wrth iddynt wella'u medrau, datblygant hyder a mwynhad. Hefyd, datblygant gyfeillgarwch newydd gyda'u cyfoedion.

**Canlyniadau**

I fwyafrif o ddisgyblion sy'n mynychu'r hyfforddiant hwn, mae ennill achrediad priodol fel tystiolaeth o'u dysgu yn dod yn factor cymhellol. Maent yn awyddus i gyflawni'n dda ac mae ychydig eisiau symud ymlaen ar hyd llwybr at hyfforddiant pellach a chyflogaeth yn y math hwn o waith.

Yn 2015, fe wnaeth y 15 disgybl a fynychodd ennill cyfwerth â 39 TGAU ar gyfer eu dysgu ar draws amrywiaeth o weithgareddau awyr agored a gweithgareddau cysylltiedig yn y ganolfan. O'r disgyblion hyn, cafodd tri ohonynt waith dros dro yn y ganolfan, y mae un ohonynt yn parhau i weithio yno'n achlysurol pan fydd angen staff ychwanegol ar y ganolfan.

**Astudiaeth achos 4: Disgyblion yn dysgu crefftau coedwig i fodloni angen cyflogaeth lleol**

**Cyd-destun**

Nododd awdurdod lleol angen am roi hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc er mwyn cefnogi economi wledig yr ardal. Comisiynodd brosiect coedwig trwy broses caffael trwy dendr, gan ddefnyddio gwefan 'gwerthuiGymru'. Y nod oedd cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel a oedd yn ddiddorol a chymhellol i ddisgyblion a oedd wedi dadrithio yn yr ysgol, tra'n sicrhau gwerth am arian.

Nid yw'r prosiect hwn wedi cofrestru fel darparwr annibynnol addysg neu hyfforddiant gyda Llywodraeth Cymru.

**Strategaeth**

Mae'r prosiect yn cynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu medrau a chrefftau rheoli coedwig mewn amgylchedd galwedigaethol dilys. Mae grwpiau bychain o ddisgyblion sydd â lefel mynychu gwael, sydd wedi dadrithio neu wedi'u gwahardd o'r ysgol yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol mewn coedwig. Enillant achrediad ar gyfer eu cyflawniadau a dysgant fedrau arbenigol y mae galw amdanynt yn lleol.

Sefydlwyd y prosiect gan ddyn busnes lleol, sydd yn fedrus ym maes rheoli coedwig, ac ef sy'n rheoli'r prosiect. Caiff ei staffio gan dîm bach o weithwyr ieuenctid yr awdurdod lleol. O ganlyniad, caiff disgyblion gyngor ac arweiniad priodol er mwyn datblygu eu medrau galwedigaethol, gyda chymorth ar yr un pryd i ddatblygu eu hunan-barch, eu cymhelliant a'u medrau dysgu annibynnol.

Mae disgyblion yn mynychu prosiect y goedwig yn rhan-amser. Dysgant sut i gynnal amgylchedd y goedwig a gwneud darnau sylfaenol o ddodrefn gan ddefnyddio cyfarpar traddodiadol ac offer arbenigol. Yn y prosiect, caiff disgyblion eu cymell i fynychu a mwynhau her dysgu medrau newydd. Datblygant eu medrau a dysgant sut i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad. Dysgant gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith, cydweithio mewn gwaith tîm a datblygu ffydd yn eu cymheiriaid. I lawer o ddisgyblion, mae hyn yn gynnydd sylweddol.

Fodd bynnag, amlygodd dadansoddiad mapio Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yr awdurdod lleol yr angen i wella'r llwybr dilyniant i'r disgyblion hyn. O ganlyniad, trwy bartneriaeth â darparwyr dysgu yn y gwaith lleol, crëwyd cwrs mewn astudiaethau'r tir. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ennill achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer eu dysgu.

Yn 2015, fe wnaeth y prosiect, a noddir gan yr awdurdod lleol, hefyd gynnig cwrs haf ar barhad mewn dysgu. Mae'r cwrs hwn yn caniatáu i ddisgyblion gynnal eu dysgu dros wyliau'r haf ac ennill profiad a medrau ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer paratoi disgyblion sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ar gyfer eu pontio ym mis Medi i addysg bellach a hyfforddiant.

**Canlyniadau**

O'r saith disgybl a fynychodd y cwrs haf yn 2015, aeth pump ymlaen i'r cwrs achrededig ac aeth dau i gyrsiau addysg bellach i barhau â'u dysgu ym maes rheoli coedwig.

Cyflwynodd yr awdurdod lleol gymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau i fframwaith y darparwyr cwricwlwm amgen yn 2014. Ar hyn o bryd, mae'r achrediad hwn yn galluogi disgyblion i ennill cymhwyster hyd at gyfwerth â 4 TGAU (graddau D-G). O Fedi 2016 ymlaen, gwneir newidiadau i'r ffordd y bydd rhai cymwysterau yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol yng nghyfnod allweddol 4, felly byddant yn gostwng i fod cyfwerth â 2 TGAU ar y mwyaf.

Er 2014, trwy amrywiaeth o ddarpariaeth amgen, mae 57 disgybl wedi ennill cymhwyster.

Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, enillodd naw disgybl y cymhwyster mewn rheoli coedwig.  Yn gyfan gwbl, cyflawnodd y disgyblion hyn gyfwerth â 15 TGAU am eu gwaith yn y prosiect.

## Atodiad 1: Cwmpas a Sylfaen y dystiolaeth

### Cwmpas yr adroddiad

Dyma'r meysydd darpariaeth y mae'r adroddiad yn eu hystyried:

- gwersi unigol a gwersi yng nghartrefi disgyblion neu yn yr ysbyty
- dysgu yn y gwaith
- profiad gwaith
- gwasanaethau ieuenctid gan gynnwys y Porth Ieuenctid
- colegau addysg bellach
- darpariaeth ar wahân gan awdurdodau lleol
- darparwyr hyfforddiant
- sefydliadau gwirfoddol
- darparwyr addysg awyr agored
- darpariaeth therapiwtig
- pecynnau teilwredig

Nid yw'r adroddiad yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc, heblaw pan fyddant yn derbyn y ddarpariaeth uchod:

- ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- plant a phobl ifanc sy'n deithwyr
- plant o deuluoedd heb gartref parhaol neu sy'n symud yn fynych
- plant i rieni yn y lluoedd arfog
- plant sy'n derbyn gofal
- pobl ifanc mewn sefydliadau troseddau ieuenctid ac unedau diogel
- plant a phobl ifanc sy'n mynychu UCDau

Nid yw'r adroddiad yn cynnwys gwaith ysgolion arbennig annibynnol gan fod yr ysgolion hyn yn cael arolygiadau gan Estyn o dan adran 163 a chânt eu monitro'n flynyddol gan Estyn hefyd.

Mae'r canfyddiadau wedi eu seilio ar ddadansoddiad o fap cenedlaethol o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a ddatblygwyd o ymatebion i arolwg o awdurdodau lleol. Ymwelodd arolygwyr â chwe awdurdod lleol lle y buont yn craffu ar ddogfennau allweddol a chyfweld ag aelodau etholedig allweddol, uwch swyddogion a grwpiau ffocws o benaethiaid. Yn ogystal, ymwelodd arolygwyr â 12 darparwr addysg heblaw yn yr ysgol, ar draws cyfnodau allweddol, i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chwrdd â disgyblion a staff allweddol.

Ymwelodd arolygwyr â'r awdurdodau lleol canlynol:

- Wrecsam
- Casnewydd
- Castell-nedd Port Talbot
- Caerffili
- Gwynedd
- Rhondda Cynon Taf

Ystyriodd yr adroddiad arolygon, canfyddiadau arolygu a data blaenorol Estyn. Rhoddwyd sylw i amrywiaeth o adroddiadau ac ymchwil arall am brofiadau dysgwyr ac addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth gefndir

### Llwybr Dysgu 14-19

O dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygiwyd) 2014, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4.

Rhaid i'r cwricwla lleol gynnwys dewis eang o opsiynau astudio, rhai academaidd a galwedigaethol eu natur fel ei gilydd, a bod o fewn cyrraedd pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

I ddysgwyr na allant fanteisio ar gyrsiau lefel 2 oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol, dylai fod cyfleoedd i ddilyn dewis o gyrsiau sy'n caniatáu iddynt wneud cynnydd da tuag at gymwysterau lefel 2.

Lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd difrifoldeb angen yr unigolyn, dylai'r cyrsiau arwain at fyw'n annibynnol a gweithio yn y gymuned.

### Gofynion cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n mynychu addysg heblaw yn yr ysgol

O dan adran 4(2) Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 10 Atodlen 7 Deddf Addysg 1997), gall awdurdodau lleol drefnu presenoldeb rhan-amser mewn ysgol prif ffrwd fel rhan o becyn addysg heblaw yn yr ysgol, a luniwyd i ddarparu addysg addas.

Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch disgyblion sy'n cael eu haddysg oddi ar safle ysgol a gynhelir ar gyfer gweithgaredd addysgol cymeradwy neu sy'n mynychu gweithgaredd cymeradwy mewn ysgol neu UCD arall, yn cynnig dau brif opsiwn o ran cofrestru presenoldeb. Y rhain yw Cod Cofrestru B a Chod Cofrestru D.

Mae statws cofrestru 'is-ddarpariaeth' Cod Cofrestru B, yn cynnwys disgyblion sydd:

- yn cael eu haddysg oddi ar safle'u hysgol prif ffrwd gan eu bod yn mynychu cyrsiau galwedigaethol yn y coleg
- yn mynychu addysg amgen a drefnwyd gan yr ysgol neu y mae'r ysgol wedi cytuno iddi
- yn ymgymryd â phrofiad gwaith fel rhan o gwricwlwm amgen neu ddarpariaeth amgen

Defnyddir Cod Cofrestru D pan fydd disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn dwy ysgol, neu mewn ysgol ac UCD. Mae'r ysgolion/UCD yn rhannu cyfrifoldeb am y disgyblion hyn a dylai'r naill a'r llall ohonynt gofnodi presenoldeb y disgybl yn unol ag amserlen ar y cyd y disgybl. Dylai un ysgol/UCD gymryd cyfrifoldeb am ddilyn trywydd pob absenoldeb heb esboniad.

## Cyfeiriadau

Estyn (2007) *Arfer awdurdodau addysg lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arfer%20awdurdodau%20addysg%20lleol%20wrth%20fonitro%20lleoliad%20disgyblion%20sy%27n%20cael%20eu%20haddysgu%20y%20tu%20allan%20i%20leoliad%20yr%20ysgol%20-%20Mai%202007.pdf [Cyrchwyd 9 Mai 2016].

Prydain Fawr (1996) *Education Act 1996.* Adran 19. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/contents [Cyrchwyd 9 Mai 2016].

Prydain Fawr (2002) *Education Act 2002.* Pennod 10. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/contents [Cyrchwyd 9 Mai 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Independent schools information and registration handbook.* Canllawiau 099/2011. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://dera.ioe.ac.uk/2948/1/110413handbooken.pdf [Cyrchwyd 10 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2015a) *Pupils educated other than at school, 2014/15.* SDR 112/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150729-pupils-educated-other-than-at-school-2014-15-en.pdf [Cyrchwyd 1 Mawrth 2016].

Llywodraeth Cymru (2015b) *Permanent and fixed-term exclusions from schools in Wales, 2013/14.* SDR 154/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150929-permanent-fixed-term-exclusions-from-schools-2013-14-en.pdf [Cyrchwyd 9 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2016), *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*. Canllawiau 203/2016. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-cy.pdf [Cyrchwyd 9 Mai 2016].

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Susan Roberts | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |
| Jassa Scott | Arolygydd Tîm |